# Canllawiau Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn

## Beth ydyw'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ?

Mae'r **Gronfa Datblygu Cynaliadwy** yn darparu cefnogaeth ariannol i brosiectau yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae Llŷn yn un o bump AHNE yng Nghymru, y rhai eraill yw  Ynys Môn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Gŵyr a Dyffryn Gwy. Llywodraeth Cymru sydd yn darparu'r cyllid ar gyfer y Gronfa.

## Beth yw Amcanion y Gronfa ?

Nod y Gronfa yw cefnogi Cynaliadwyedd yn yr AHNE a gerllaw – mae hyn yn cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Hefyd mae'r Gronfa yn cefnogi prif ddiben dynodiad AHNE sef gwarchod a gwella harddwch naturiol. Bydd y Gronfa felly yn cefnogi prosiectau i gynnal, gwarchod a gwella yr amgylchedd naturiol, bywyd gwyllt, adeiladau a strwythurau hanesyddol, y diwylliant lleol, a mentrau cymunedol ac economaidd addas.

## Faint o arian sydd ar gael ?

Gellir gwneud ceisiadau am grantiau bychain o lai na £3,000 neu grantiau mwy hyd at hanner maint y Gronfa flynyddol (mae'r ffigwr yn amrywio).

## Pwy sy'n gymwys i gyflwyno cais am gyllid ?

Mae'r grant ar gael ar gyfer unrhyw sefydliad, gan gynnwys grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol, yn ogystal â'r sector preifat ac unigolion. Bydd rhaid i'r sector preifat ac unigolion ddangos bod eu prosiectau o fudd cyhoeddus ehangach. Bydd disgwyl i gynigion am grant gwrdd ag amcanion y Gronfa a bod wedi ei leoli oddi mewn i AHNE neu'n dod â lles uniongyrchol i AHNE. Bydd rhaid hefyd i'ch prosiect gydymffurfio ag unrhyw amodau eraill perthnasol – e.e. caniatâd cynllunio, rheoliadau adeiladu etc.

## Pa fath o brosiectau fydd yn cael ei cefnogi ?

Y mathau o brosiectau a gefnogir fydd rhai sy'n:

- Diogelu a gwella harddwch naturiol y AHNE, gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig.
- Hybu ffurfiau cynaliadwy o ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd mewn AHNE.
- Hybu lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol.
- Hyrwyddo mwynhad tawel yn yr AHNE

<u>Rhoir blaenoriaeth i brosiectau sy'n:</u>

- Torri tir newydd neu hyrwyddo arfer dda.
- Rhoi cyfle i gymunedau a phobl ifanc lleol fod yn rhan ohonynt.
- Derbyn cyfraniadau o ffynonellau eraill mewn arian neu nwyddau nwyddau/gwasanaeth.
- Goresgyn rhwystrau yn erbyn cynaliadwyedd a hybu dealltwriaeth ehangach o gynaladwyedd.
- Hybu datblygiad cymdeithasol ac economaidd addas.
- Codi ymwybyddiaeth o'r AHNE a chreu swyddi newydd neu incwm i gymunedau lleol heb wneud niwed i'r amgylchedd.

<u>Enghreifftiau o brosiectau y gellir eu cyllido gan y Gronfa:</u>

- Prosiectau ysgol – megis rheoli tiroedd yr ysgol ar gyfer bywyd gwyllt; a chynlluniau i leihau ynni, gwastraff a thrafnidiaeth.
- Prosiectau trafnidiaeth cynaliadwy i leihau'r defnydd o foduron a gwella iechyd drwy wneud mwy o weithgaredd corfforol.
- Gwella tiroedd agored y pentrefi er mwyn i bobl leol eu defnyddio (e.e. gweithgareddau cymunedol) a bywyd gwyllt.
- Adfer nodweddion hanesyddol – e.e. ail-godi waliau cerrig a chloddiau, rheoli tir er cadwraeth.

<u>Grantiau a chyfraddau grantiau:</u>

Gall y cynllun gynnig:

- ♦ Grantiau prosiectau
- ♦ Grantiau rheoli ar gyfer helpu tuag at costau staff
- ♦ Grantiau datblygu er mwyn darparu catalydd ar gyfer gweithrediadau neu bartneriaethau newydd.

- Bydd hyd at 75% o gyfanswm costau'r prosiect ar gael ar gyfer prosiectau cymwys.
- Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys elfen o hyd at 12% ar gyfer costau cyffredinol priodol.
- Disgwylir i'r ymgeiswyr gyfrannu o leiaf 25% o gyfanswm costau'r prosiect, naill ai o'u cyllid eu hunain neu o ryw gyllid arall – e.e.
    - ♦ Cyllid y sector preifat (e.e busnesau lleol).
    - ♦ Cyfraniadau mewn nwyddau/gwasanaethau
    - ♦ Mathau eraill o grant.
    - ♦ Cyllid y Loteri Genedlaethol.
- Caiff amser gwirfoddolwyr ei brisio yn ôl cyfraddau cyfredol (cysylltwch a'r Uned AHNE am y ffigyrau diweddaraf).
- Ar ôl cwblhau y prosiectau y telir yr arian fel arfer.

## Meini Prawf Asesu Ceisiadau

Caiff ceisiadau eu hasesu ôl y meini prawf a restrir isod. Ceir dwy adran ar y ffurflen gais i ddangos sut mae ceisiadau yn cwrdd â'r meini prawf hyn. Disgwylir y bydd **y prosiectau yn cwrdd â'r holl meini prawf craidd isod:**

### *Meini Prawf Craidd*

- Cynnal neu wella nodweddion lleol y diwylliant, y bywyd gwyllt, y defnydd o'r tir, a'r gymuned.
- Ddim yn groes i ddibenion craidd yr AHNE.
- Wedi ei leoli yn yr AHNE neu yn dod â budd uniongyrchol i'r AHNE.
- Dangos arfer dda neu syniad newydd y gellir eu trosglwyddo i rannau eraill o Gymru.

- Yn rhoi cyfle i'r gymuned a phobl ifanc yr ardal ymwneud ag ef.

**Dylai eich prosiect hefyd gwrdd â chynifer ag sy'n bosibl o'r meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol â ganlyn:**

*Meini Prawf Amgylcheddol*

- Yn parhau y tu hwnt i gyfnod cynllun y Gronfa.
- Yn diogelu neu hyrwyddo bioamrywiaeth.
- Yn hyrwyddo cyfalaf naturiol.
- Yn hyrwyddo lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu.
- Yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol, dibenion neu gynaladwyedd yr AHNE.
- Yn gwella yr etifeddiaeth adeiledig neu naturiol.
- Yn cyflawni rhan o gynllun rheoli, Agenda Lleol 21 neu Strategaeth Gymunedol.

*Meini Prawf Cymdeithasol*

- Yn medru dangos ei fod yn cael cefnogaeth leol
- Yn rhoi cyfle i bobl ifanc neu'r gymuned leol i fod yn rhan ohono
- Yn hyrwyddo cydraddoldeb.
- Yn rhoi sylw i anghenion cymdeithasol lleol.
- Yn meddu ar strwythur i gydlynu'r prosiect.
- Yn cyfrannu at ddulliau iachach o fyw.

*Meini Prawf Economaidd*

- Yn denu cyllid o ffynhonellau eraill
- Yn dangos gwerth am arian.
- Yn cyfrannu tuag at yr economi lleol drwy greu ei incwm ei hun.
- Yn meddu ar gynllun busnes.
- Yn cyfrannu tuag at gyflogaeth, hyfforddiant neu waith gwirfoddol yr ardal.

*Meini Prawf Diwylliannol*

- Yn cyfrannu tuag at gynnal y diwylliant lleol.
- Yn meddu ar gysylltiadau diwylliannol neu hanesyddol.
- Yn defnyddio defnyddiau a sgiliau traddodiadol i reoli cefn gwlad (gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig).
- Yn defnyddio defnyddiau/technegau cynaliadwy.
- Yn darparu dehongliad.
- Yn gwneud defnydd o ddeunyddiau celfyddydol.

## Sut a pha bryd y dylid anfon cais?

Fe gynghorir ymgeiswyr posib i drafod syniadau gyda'r cyswllt lleol cyn gwneud cais. Yn dilyn hynny gellir llenwi gymaint â phosib o'r ffurflen gais ac atodi unrhyw wybodaeth ychwanegol a fydd o help i'r asesu'r cais. Gellir anfon ceisiadau i mewn yn y post neu ar e-bost.

Gall eich cyswllt lleol ddweud sut a pha bryd y bydd ceisiadau yn cael eu hystyried. **Mae'n holl bwysig peidio â dechrau unrhyw waith cyn i geisiadau gael eu hasesu a'u penderfynu.**

## Cyswllt

Uned AHNE Llŷn, Gwasanaeth Cefn Gwlad, Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, Ffordd y Cob, Pwllheli, LL53 5AA.

ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

01758 704 194